# SL(6)777 – Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 20(7)(b) o Atodlen 7 i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("Gorchymyn 2025").

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Chwefror 2026 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("y Cod Ymarfer") i rym.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Er nad yw'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd, mae'r Cod Ymarfer yn dilyn y weithdrefn a nodir ym mharagraff 20 o Atodlen 7 i Atodlen 7 i Orchymyn 2025. Mae'r Gorchymyn yn cadarnhau bod drafft o'r Cod Ymarfer wedi'i osod gerbron y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025, yn unol â pharagraff 20(4) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Yn unol â pharagraff 20(6) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025, os yw'r Senedd, o fewn cyfnod o 40 niwrnod (ac eithrio cyfnodau diddymu neu gyfnodau o doriad am fwy na phedwar diwrnod) sy'n dechrau â'r dyddiad gosod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas ag ef.

Mae paragraff 20(7) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 yn darparu, ymhlith pethau eraill, os na wneir penderfyniad o'r fath gan y Senedd o fewn y cyfnod o 40 niwrnod, fod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod Ymarfer, sy'n dod i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Gwnaed y Gorchymyn hwn ar 12 Chwefror 2026, ac ymddengys fod y dyddiad hwn yn disgyn ar ddiwrnod 39 o'r cyfnod o 40 niwrnod.

Mae rhaglith y Gorchymyn yn cynnwys y datganiadau a ganlyn:

*“**Ni wnaed** penderfyniad o’r math a grybwyllir ym mharagraff 20(6) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 gan Senedd Cymru o fewn **40 niwrnod** i’r Cod Ymarfer drafft gael ei osod.*

***Dyroddwyd** y Cod Ymarfer, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 20(7)(a) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025…”* ***[pwyslais wedi’i ychwanegu].***

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro’r canlynol:

1. y rheswm dros wneud y Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnod o 40 niwrnod a ragnodir ym mharagraff 20(6) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 (ac nid ar ôl iddo ddod i ben);
2. y dyddiad y dyroddodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymarfer yn unol â pharagraff 20 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025; ac, yn unol â hynny,
3. a yw Gweinidogion Cymru wedi’u bodloni y cydymffurfiwyd â gofynion Gorchymyn 2025 wrth wneud y Cod Ymarfer.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**3 Mawrth 2026**